Prifysgolion Cymru
Universities Wales



# Meithrin uchelgais: blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth nesaf y DU i ddatgloi potensial Cymru

## Cyflwyniad

Mae Cymru'n mynd i mewn i gyfnod o newid mawr. O'n poblogaeth sy'n heneiddio i'r effaith y bydd technoleg newydd yn ei chael ar y gweithlu. O'r angen i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd i bwysigrwydd sicrhau bod ein heconomi yn gwneud i gymunedau yng Nghymru deimlo'n well eu byd.

Gall ein prifysgolion fod ar flaen y gad o ran mynd i'r afael â'r heriau hyn a chefnogi ffyniant ledled Cymru. Mae prifysgolion yn datblygu sgiliau sy'n cynorthwyo busnesau lleol; maent yn darparu ymchwil ac arloesedd sy'n creu effaith sylweddol, ac yn gweithio fel angorau mewn economïau lleol. Mae'r manteision hyn i'w teimlo ym mhob rhan o Gymru.

Ond mae prifysgolion dan bwysau sylweddol. Boed hynny'n effaith chwyddiant ar ein cyllid, ansicrwydd ynghylch recriwtio rhyngwladol neu'r galw cynyddol am wasanaethau prifysgol wrth i wasanaethau'r sector cyhoeddus gyrraedd capasiti.

Mae amgylchedd gwleidyddol y DU yn gymhleth, ac er bod llawer o'r meysydd sydd o bwys i brifysgolion wedi'u datganoli, mae yna feysydd sy'n parhau i fod yn gyfrifoldeb Llywodraeth y DU fel mewnfudo a chyllido cynghorau ymchwil. Mae yna feysydd hefyd, fel cymwysterau a chynhaliaeth i fyfyrwyr, lle mae cydnabyddiaeth a chydweithio yn hanfodol er mwyn galluogi pobl i fanteisio ar y cyfleoedd sydd orau ar gyfer eu hanghenion.

Isod mae pum maes lle teimlwn y gall Llywodraeth nesaf y DU wneud gwahaniaeth i brifysgolion yng Nghymru a'n helpu i fynd i'r afael â'r heriau mawr sydd o'n blaenau.

# Pedair gwlad yn cydweithio

Mae prifysgolion yn gweithredu mewn tirwedd wleidyddol, reoleiddiol a chyllidol gymhleth. Mae rhai meysydd cyllido prifysgolion wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru, ac eraill yn dal i fod yn gyfrifoldeb Llywodraeth y DU.

Mae un o rannau pwysicaf ein seilwaith cyllido, sef ein system gynhaliaeth i fyfyrwyr, yn gyfrifoldeb datganoledig ond yn amodol ar gytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Thrysorlys y DU.

Mae yna hefyd feysydd fel Cynllun Pensiwn yr Athrawon a mewnfudo sy'n gyfrifoldeb Llywodraeth y DU ond sy'n effeithio ar brifysgolion Cymru.

Y tu hwnt i'r effeithiau uniongyrchol hyn, yn aml mae yna feysydd lle mae penderfyniadau a wneir yng Nghymru neu Loegr yn gofyn am ymateb gan y wlad arall. Er enghraifft, pan fydd penderfyniad yn effeithio ar y nifer sylweddol o fyfyrwyr sy'n symud rhwng Cymru a Lloegr i astudio.

O ystyried y cymhlethdod hwn, rydym wedi elwa dros y blynyddoedd o asedau a seilwaith addysg uwch a rennir. Ond mae'r nodweddion hyn, a oedd yn sail i frand addysg uwch y DU a gydnabyddir yn rhyngwladol, wedi dirywio dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae perthynas gydweithredol a chynhyrchiol rhwng llywodraethau'r DU yn hanfodol er mwyn caniatáu ar gyfer cynllunio a buddsoddi hirdymor.

**1**

Dylai Llywodraeth nesaf y DU roi blaenoriaeth i weithio gyda llywodraethau ledled y DU i osod fframwaith ar gyfer gwaith ystyrlon ar y cyd rhwng y pedair gwlad, gan gynnwys dyraniadau cyllid tryloyw.

Caiff yr ymchwil a'r arloesedd y mae ein prifysgolion yn eu cynnal eu hariannu gyda chymysgedd o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. O ystyried hyn, mae cydweithio rhwng y pedair gwlad yn arbennig o bwysig er mwyn sicrhau y gellir teimlo manteision ymchwil ac arloesedd ledled y DU.  Mae yna angen a chyfle i sicrhau bod llais Cymru'n yn cael ei glywed o fewn strwythurau llywodraethiant a threfniadaeth y DU gyfan.

**2**

Dylai Llywodraeth nesaf y DU ystyried y ffordd orau o sicrhau bod Cymru'n cael ei hadlewyrchu yn strwythurau llywodraethiant a threfniadaeth cyllidwyr ymchwil y DU. Gall hyn gynnwys cynrychiolaeth ar gyfer ymchwil ac arloesedd Cymru o fewn strwythurau llywodraethiant, ynghyd â pherthnasoedd teg rhwng sefydliad Ymchwil ac Arloesedd y DU (UKRI) a'r pedwar cyllidwr cenedlaethol.

# Rhoi lleoedd wrth galon polisi

Mae gan brifysgolion yng Nghymru'r fraint o fod yn rhan annatod o'u trefi a'u dinasoedd, ac maent yn ymwybodol o gryfderau, anghenion a heriau amrywiol y lleoedd hyn. Ledled Cymru gwelwn anghenion gwahanol, boed hynny yn y galw am sgiliau, y gofynion o ran ymchwil ac arloesedd penodol gan ddiwydiant lleol, neu oblygiadau ein hamgylcheddau amrywiol.

**3**

Dylai Llywodraeth nesaf y DU osod lleoedd wrth galon llunio polisïau, gan sicrhau bod penderfyniadau'n seiliedig ar yr effaith y byddant yn ei chael ar y gwahanol gymunedau ledled Cymru a'r DU yn ehangach.

Un rheswm pam mae lle o bwys mewn polisi yw bod ymchwil rhagorol wedi'i ddosbarthu'n fwy cyfartal ar draws y DU na'r cyllid sy'n ei gynnal. Mae'n amgylchedd cymhleth gyda llawer o wahanol gyllidwyr a chyfranogwyr: o sefydliadau hirsefydlog fel cynghorau ymchwil i strwythurau mwy newydd fel Bargeinion Dinesig a Thwf a Phorthladdoedd Rhydd. Mae yna gyfle i wella'r ffordd y mae'r darnau gwahanol hyn yn cyd-fynd â'i gilydd.

**4**

Dylai Llywodraeth nesaf y DU archwilio, mewn partneriaeth â gweinyddiaethau datganoledig, pa fecanweithiau y gellid eu rhoi ar waith i gydgysylltu gweithgareddau ymchwil, arloesedd a sgiliau yn well ar draws gwledydd a rhanbarthau. Byddai hyn yn alinio'r gwahanol ddulliau rhanbarthol sydd eisoes ar waith yn well.

Dimensiwn pwysig arall i drefi a dinasoedd ledled Cymru yw rôl sicrwydd hirdymor o ran galluogi prifysgolion a phartneriaid i wneud y gorau o gyfleoedd a chynllunio sut i sicrhau'r budd mwyaf i'n cymunedau.

**5**

Dylai Llywodraeth nesaf y DU adolygu'r ymagwedd hirdymor at gyllido rhanbarthol gan gynnwys trwy gyfryngau megis Bargeinion Dinesig a Thwf.

## Buddsoddiad yng Nghymru

Bu arian o Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddiad Ewropeaidd yn hanfodol a sylfaenol wrth adeiladu'r capasiti ymchwil, arloesedd a sgiliau ledled Cymru. Roedd yr arian hwn yn caniatáu i ni gynnal prosiectau arloesedd blaengar megis adeiladau sy'n cynhyrchu mwy o ynni nag y maent yn ei ddefnyddio, creu arferion mwy cynaliadwy ym maes gweithgynhyrchu, cynorthwyo busnesau bach i gydweithio ag academyddion, a sbarduno arloesedd mewn arferion amaethyddol. Roedd llawer o'r prosiectau hyn yn gweithio'n rhanbarthol neu'n genedlaethol ledled Cymru, gan dynnu ar gryfderau ac arbenigedd o sawl prifysgol.

Nid yw'r cyllid newydd a ddaeth yn ei le ar ffurf Ffyniant a Rennir y DU wedi'i dargedu at ardaloedd lle mae yna angen gwirioneddol nac wedi cynnig yr un cyfleoedd i brifysgolion sicrhau buddion trawsnewidiol. Mae'r ffordd y mae'n cael ei ddosbarthu'n ei gwneud hi'n anodd cydweithio ar sail ranbarthol neu genedlaethol. Roedd natur fyrdymor yr arian hefyd yn golygu nad oedd bellach yn bosibl cynllunio hirdymor fel y gwnaed gydag arian o'r Cronfeydd Strwythurol.

**6**

Dylai Llywodraeth nesaf y DU ymrwymo i ddatganoli cyllido trwy gynllun Ffyniant a Rennir y DU neu gyfrwng gwahanol, ar raddfa ddigonol i sicrhau'r buddion a gyflawnwyd yn flaenorol trwy arian o Gronfeydd Strwythurol.

## Cymru a'r byd

Mae ein prifysgolion ar flaen y gad o ran sefydlu lle Cymru ar lwyfan y byd. Mae ein prifysgolion mewn sefyllfa unigryw i gryfhau safle Cymru trwy gefnogi pobl o bob rhan o'r byd i astudio yng Nghymru, academyddion yn cydweithio ar draws ffiniau, neu brifysgolion yn adeiladu partneriaethau rhyngwladol.

Mae llawer o feysydd sy'n gyfrifoldeb Llywodraeth y DU yn effeithio ar allu prifysgolion Cymru i gyflawni yn y maes hwn.

**7**

Dylai Llywodraeth nesaf y DU ystyried anghenion penodol poblogaeth a gweithlu Cymru wrth wneud penderfyniadau polisi ar fewnfudo.

**8**

Dylai Llywodraeth nesaf y DU wneud ymrwymiad i ymuno â rhaglen FP10, sy'n olynydd i gynllun cyllido ymchwil ac arloesedd Horizon Europe, a gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y DU yn cael ei thrin fel partner cyfartal.

Mehefin 2024
Prifysgolion Cymru
www.uniswales.ac.uk
info@uniswales.ac.uk

Prifysgolion Cymru Universities Wales